# CYNGOR SIR PENFRO

# Is-adran Diogelu'r Cyhoedd

## 1. AMODAU TRWYDDED AR GYFER SEFYDLIADAU MARCHOGAETH

## DEDDFAU SEFYDLIADAU MARCHOGAETH 1964 a 1970

1. Mae'r **Atodlen Ceffylau** atodedig, yn rhoi manylion yr holl geffyl a oedd yn cael eu cadw yn y sefydliad ar adeg yr arolygiad trwyddedu. Ceffylau a nodir o dan y teitl "wedi'u llogi i'w marchogaeth" yw'r unig geffylau i'w llogi er mwyn eu marchogaeth neu er mwyn rhoi hyfforddiant. **Dim ond drwy ganiatâd datganedig yr awdurdod hwn y gellir ychwanegu unrhyw geffylau ychwanegol sydd i'w llogi er mwyn eu marchogaeth neu er mwyn rhoi hyfforddiant.**

2. Rhaid i'r ceffylau gael eu cadw mewn iechyd da, a rhaid iddynt, ym mhob ffordd, fod yn ffit yn gorfforol ac, yn achos ceffyl a gedwir er mwyn ei ddefnyddio i roi hyfforddiant marchogaeth, rhaid i'r ceffyl fod yn addas ar gyfer y diben y'i cedwir.

3. Ni ellir caniatáu i unrhyw geffyl tair oed neu iau nac unrhyw gaseg gyfeb nac unrhyw gaseg sydd wedi bwrw ebol yn y tri mis diwethaf gael eu rhyddhau na'u llogi i'w marchogaeth neu eu defnyddio, yn gyfnewid am dâl, ar gyfer hyfforddiant mewn marchogaeth neu i ddangos sut i farchogaeth.

4. Rhaid i unrhyw gyfarpar marchogaeth a gyflenwir ar gyfer ceffyl a gaiff ei ryddhau i'w logi fod yn rhydd o ddiffygion gweladwy sy'n debygol o wneud i'r ceffyl ddioddef neu a allai achosi damwain i'r person sy'n ei farchogaeth.

5. Rhaid i draed pob anifail gael eu torri'n iawn ac, os oes ganddynt bedolau, rhaid eu bod wedi cael eu gosod yn iawn a bod mewn cyflwr da.

6. Ni ddylai ceffyl, y canfyddir wrth i swyddog awdurdodedig archwilio'r safle fod angen sylw milfeddyg arno, ailddechrau gweithio nes bod y deiliad trwydded, ar ei draul ei hun ac ar ôl hysbysu'r awdurdod lleol, wedi cael tystysgrif filfeddygol yn nodi bod y ceffyl yn ffit i weithio.

7. Ni ellir rhyddhau ceffyl i'w logi er mwyn ei farchogaeth neu er mwyn ei ddefnyddio i roi hyfforddiant mewn marchogaeth heb oruchwyliaeth gan berson cyfrifol 16 oed neu hŷn oni fydd (yn achos ceffyl a ryddheir i'w

logi er mwyn ei farchogaeth) y deiliad trwydded yn fodlon bod yr unigolyn sy'n llogi'r ceffyl yn gymwys i farchogaeth heb oruchwyliaeth.

8. Yn achos ceffylau a gedwir ar laswellt rhaid sicrhau, ar yr adegau pan gânt eu cadw, fod ganddynt ddigon o dir porri a chysgod a dŵr drwy'r amser a rhaid darparu porthiant ychwanegol pan fydd angen.

9. Rhaid sicrhau bod digon o fwyd a diod addas ar gael i'r ceffylau ynghyd â deunydd gorwedd (heblaw am geffylau a gedwir ar laswellt, cyhyd ag y cânt eu cadw felly) a rhaid iddynt gael eu hymarfer a'u gwastrodi a rhaid sicrhau y gallant orffwys ac y bydd rhywun yn ymweld â nhw ar adegau addas.

10. Rhaid cymryd pob cam rhesymol i atal a rheoli clefydau heintus rhag lledu ymhlith ceffylau a rhaid darparu offer cymorth cyntaf a meddyginiaethau milfeddygol a'u cynnal a'u cadw ar y safle mewn cynhwysydd dan glo.

11. Rhaid i'r gwaith o adeiladu'r sefydliad marchogaeth fod yn sylweddol, ac yn ddigonol i'r amodau. Rhaid sicrhau bod mynediad cyfleus a diogel i stalau a bocsys. Rhaid i'r stalau fod yn ddigon mawr fel y gall yr anifail orwedd a chodi heb achosi anaf i'w hun. Rhaid i'r bocsys fod yn ddigon mawr fel y gall yr anifail droi o amgylch.

12. Rhaid i ierdydd ddarparu digon le ar gyfer anifail a gedwir yno.

13. Rhaid i'r goleuo fod yn ddigonol fel nad oes angen defnyddio golau artiffisial yn ystod y dydd.

14. Rhaid i'r system awyru ddarparu aer ffres heb ddrafftiau.

15. Rhaid i'r draeniau fod yn ddigonol i gludo unrhyw hylif a gaiff ei ysgarthu gan y ceffylau a chadw'r stalau yn sych.

16. Rhaid darparu ar gyfer storio a gwaredu tail a hen wellt.

17. Rhaid darparu digon o adeiladau ar gyfer porthiant, deunydd gorwedd, offer stablau a chyfrwyaeth.

18. Rhaid i'r deiliad trwydded sicrhau y cymerir camau priodol i ddiogelu a rhyddhau ceffylau os bydd tân ac, yn enwedig, bod enw, cyfeiriad a rhif ffôn deiliad y drwydded neu berson cyfrifol arall yn cael eu harddangos mewn lle amlwg y tu allan i'r safle a bod cyfarwyddiadau i'w dilyn os bydd tân, yn enwedig o ran rhyddhau ceffylau, yn cael eu cadw mewn lle amlwg y tu allan i'r safle. Rhaid i'r gofynion o ran Rhagofalon Tân gydymffurfio â'r "Atodlen Rhagofalon Tân".

19. Ni ddylid gadael i unrhyw un o dan 16 oed gynnal busnes y sefydliad ar unrhyw adeg.

20. Rhaid i'r deiliad trwydded ddal polisi yswiriant cyfredol sy'n ei yswirio ef/hyswirio hi rhag atebolrwydd am unrhyw anaf a gaiff y rhai sy'n llogi

ceffyl ganddo/ganddi i’w farchogaeth a’r rhai sy’n defnyddio ceffyl wrth gael, ganddo ef/ganddi hi, yn gyfnewid am dâl, hyfforddiant mewn marchogaeth ac sy’n deillio o logi neu ddefnyddio ceffyl fel y crybwyllwyd eisoes ac sydd hefyd yn yswirio unigolion o’r fath mewn perthynas ag unrhyw atebolrwydd y gallant fynd iddo o ran anaf i unrhyw unigolyn a achosir o ganlyniad i logi neu ddefnyddio ceffyl neu sy’n deillio o hynny, fel y crybwyllwyd eisoes.

Rhaid i’r polisi yswiriant a ddelir:

a) eich yswirio rhag atebolrwydd am unrhyw anaf a gaiff y rhai sy’n llogi ceffyl gennych chi i’w farchogaeth neu’r rhai sy’n defnyddio ceffyl wrth gael gennych chi, yn gyfnewid am dâl, hyfforddiant mewn marchogaeth.

b) eich yswirio rhag atebolrwydd sy’n deillio o logi neu ddefnyddio ceffyl yn y fath fodd

c) yswirio llogwyr neu ddefnyddwyr o’r fath o ran unrhyw atebolrwydd y gallant fynd iddo o ran anaf i unrhyw un a achosir o ganlyniad i logi neu ddefnydd o’r fath neu sy’n deillio o hynny.

**Cyfanswm yr Indemniad** sy’n ofynnol - Lleiafswm o £2,000,000.

21. Rhaid i’r deiliad trwydded gadw cofrestr o’r holl geffylau yn ei feddiant/meddiant sydd yn dair oed ac iau ac a gedwir ar y safle fel arfer a fydd ar gael i’w harchwilio gan swyddog awdurdodedig ar bob adeg resymol.

22. Rhaid i’r deiliad trwydded sicrhau bod pob un sy’n marchogaeth y ceffylau yn gwisgo dillad addas, esgidiau trwm sodlog a het marchogaeth sy’n bodloni’r fanyleb B.S.S. gyfredol.

## 2. GWEITHDREFN APELIO
## DEDDFAU SEFYDLIADAU MARCHOGAETH 1964 A 1970

Section (4A) Without prejudice to the provisions of subsection (2) or (4) of this section, every licence granted under this Act after 31 December 1970 shall be subject to the following conditions (whether they are specified in the licence or not), namely -

(a) a horse found on inspection of the premises by an authorised officer to be in need of veterinary attention shall not be returned to work until the holder of the licence has obtained at his own expense and has lodged with the local authority a veterinary certificate that the horse is fit for work;

(b) no horse will be let out on hire for riding or used for providing instruction in riding without supervision by a responsible person of the age of 16 years or over unless (in the case of a horse let out for hire for riding) the holder of the licence is satisfied that the hirer of the horse is competent to ride without supervision;

(c) the carrying on of the business of a riding establishment shall at no time be left in the charge of any person under 16 years of age;

(d) the licence holder shall hold a current insurance policy which insures him against liability for any injury sustained by those who hire a horse from him for riding and those who use a horse in the course of receiving from him, in return for payment, instruction in riding and arising out of the hire or use of a horse as aforesaid and which also insures such persons in respect of any liability which may be incurred by them in respect of injury to any person caused by, or arising out of, the hire or use of a horse as aforesaid;

(e) A register shall be kept by the licence holder of all horses in his possession aged three years and under and usually kept on the premises which shall be available for inspection by an authorised officer at all reasonable times.

Any person aggrieved by the refusal of a local authority to grant such a licence, or by any condition subject to which such a licence is proposed to be granted (not being one of the conditions set out in subsection (4A) above of this section), may appeal to a magistrates’ court; and the court may on such an appeal give such directions with respect to the issue of a licence or, as the case may be, with respect to the conditions subject to which a licence is to be granted as it thinks proper

## 3. CANLLAWIAU RHAGOFALON TÂN

Darperir y wybodaeth ganlynol i drwyddedeion, er mwyn helpu i gydymffurfio â'r gofynion o ran rhagofalon tân a grybwyllir yn amod trwydded 18 y Cyngor.

Nod y canllawiau yw sicrhau bod y ffyrdd o ddianc a'r rhagofalon tân cysylltiedig yn ddigonol ar gyfer amddiffyn pobl a cheffylau yn y sefydliad. Dylid cofio bod gofynion diogelwch tân ar gyfer pobl wedi'u cwmpasu mewn deddfwraeth arall o bosibl.

Dylid ystyried y materion canlynol:

Mynediad ar gyfer Ymladd Tân a Chyflenwadau Dŵr

Dylai fod mynediad da (o leiaf 3.7m o led) i beiriannau tân gyrraedd pob hydrant a ffynonellau eraill o ddŵr a dylid darparu lleiniau caled. Dylai bwrdd enw'r safle gael ei arddangos yn glir wrth ymyl y ffordd fynediad agosaf.

Dulliau Dianc

Dylai'r llwybrau dianc i anifeiliaid gael eu cynllunio fel y bydd modd iddynt redeg allan yn syth o adeiladau, gyda chyn lleied o gymorth â phosibl gan bobl.

Dylai drysau corlannau gael eu trefnu fel y gall anifeiliaid gael eu symud o'r adeilad yn gyflym a dylid osgoi troeon llym, rhwystrau a rampiau yn y llwybrau dianc hyd y gellir.

a) Dylai allanfeydd pob safle fod yn ddigon llydan ac uchel er mwyn rhoi mynediad hawdd at yr anifeiliaid drwy'r amser.
b) Dylai fod modd agor yr allanfeydd yn hawdd o'r tu mewn heb ddefnyddio allwedd.

c) Os bydd angen, dylid darparu bod modd cysylltu â deiliad allwedd yn hawdd.

Mewn adeiladau sydd dros 30 metr o hyd neu lle mae cryn nifer o anifeiliaid yn cael eu lletya, dylid darparu o leiaf ddwy allanfa a'u lleoli mor bell i ffwrdd oddi wrth ei gilydd â phosibl. Ni ddylai'r pellter teithio fod yn fwy na 30 metr.

Arwyddion Dim Ysmygu

Dylid arddangos hysbysiadau dim ysmygu wrth ymyl gwair a gwellt a lle y bo'n ymarferol dylid cymryd rhagofalon ymarferol rhag mynediad heb awdurdod, yn enwedig gan blant.

Gosodiadau Trydanol

Dylai gosodiadau trydanol, gan gynnwys lampau, gael eu glanhau'n rheolaidd er mwyn osgoi gormod o lwch.

Dylai offer trydanol, peiriannau gwresogi ac ati gael eu lleoli a'u clymu'n sownd er mwyn sicrhau eu bod bellter diogel oddi wrth unrhyw ddeunydd gorwedd llosgadwy sy'n debygol o gronni.

Offer Diffodd Tân

a) Diffoddwyr Tân Cludadwy

Argymhellir y canlynol fel gofyniad sylfaenol:

Mae angen o leiaf 2x9 litr o ddiffoddwyr dŵr neu 2x4.5kg o ddiffoddwyr powdwr sych ar adeiladau nad ydynt yn fwy na 200 metr sgwâr o ran arwynebedd.

Ar gyfer adeiladau dros 200 metr sgwâr, rhaid darparu diffoddydd tân ychwanegol am bob 200 metr sgwâr ychwanegol neu ran o hynny.

Rhaid i ddiffoddwyr tân cludadwy gydymffurfio â gofynion BS 5423 a chael eu gosod a'u cynnal a'u cadw yn unol â'r argymhellion a roddir yn BS 5306 - Rhan 3.

b) Olwyni piben dân

Gellir darparu olwyni piben dân yn lle diffoddwyr tân cludadwy. Dylai fod o leiaf un bipen ar gyfer pob 800 metr sgwâr mewn arwynebedd neu ran o hynny. Dylai gydymffurfio â BS 5306: Rhan 1.

Gall pibau golchi fod yn dderbyniol ar yr amod bod llif cyson o ddŵr sy'n gallu cynhyrchu chwistrell o ddŵr o 6 metr i ffwrdd o leiaf.

Ni ddylai olwyni pibau dŵr fod yn fwy na 45m o hyd a dylid eu lleoli fel y gall y ffroenell gyrraedd 6m o bob rhan o'r safle a ddiogelir.

Hysbysiadau Atal Tân

Dylai pob aelod o staff yn y sefydliad fod yn gyfarwydd â pha gamau y mae'n rhaid eu cymryd os bydd tân.

Dylid darparu hysbysiad ysgrifenedig, clir mewn man amlwg sy'n nodi'r camau i'w cymryd os bydd tân a lleoliad y ffôn agosaf. Gall yr hysbysiad hwn gynnwys y canlynol:
"Os gwelwch dân, sicrhewch fod yr adeilad dan sylw yn cael ei wagio.
Ffoniwch y Frigâd Dân {mae'r ffôn agosaf yn ………………}.
Ceisiwch ddiffodd y tân drwy ddefnyddio'r offer diffodd tân a ddarperir, os yw'n ddiogel i chi wneud hynny. ac ati."

Dylid nodi rhif cyfeirnod map yr Arolwg Ordnans ar gyfer y safle a'i arddangos ar yr Hysbysiad Tân a ddarperir.

## 4. RHEOLIADAU TRYDAN YN Y GWEITHLE 1989. RHEOLIAD 4 (2)

Gofyniad Statudol

Rhaid i chi sicrhau bod pob system drydanol yn cael ei hadeiladu a'i chynnal yn ddigonol, er mwyn atal perygl, yn unol â Rheoliadau Trydan yn y Gweithle 1989.

Canllawiau

Rydym yn argymell eich bod yn cyflawni'r cam gweithredu canlynol, ond noder nad yw'n ofyniad statudol.
Dylai unrhyw offer trydanol cludadwy, ceblau hyblyg, plygiau, socedi, cysylltwyr a gwifrau estyn gael eu nodi ar wahân a'u harchwilio'n weladwy am ddifrod yn rheolaidd a chael eu profi'n drydanol yn rheolaidd er mwyn sicrhau uniondeb trydanol parhaus. Dylid cadw cofnodion priodol o ddyddiadau a chanlyniadau'r gwaith arolygu, profi ac unioni. Dylai'r amser rhwng arolygiadau a phrofion ystyried y defnydd o'r offer dan sylw.

Dylai'r offer trydanol gael ei osod, ei brofi a'i gynnal a'i gadw yn unol â darpariaethau Rheoliadau Sefydliad y Peirianwyr Trydanol (IEE) ar gyfer yr amser mewn grym. Mae'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwaith gosod trydanol ar safleoedd masnachol gael ei archwilio bob pum mlynedd.

Ni ddylai neb wneud gwaith trydanol oni fydd ganddynt y wybodaeth ddigonol i atal niwed iddynt hwy eu hunain ac i eraill.

## 5. RHEOLIADAU ADRODD AR ANAFIADAU, AFIECHYDON A DIGWYDDIADAU PERYGLUS 1998 – (RIDOOR)

Os ydych yn gyflogwr, yn hunangyflogedig neu'n rheoli safle gwaith mae gennych ddyletswydd gyfreithiol i roi gwybod am ddamweiniau, afiechydon a digwyddiadau peryglus sy'n gysylltiedig â'r gwaith. Rhaid i chi hysbysu'r ganolfan gyswllt digwyddiadau yng Nghaerffili, a gellir cysylltu â'r ganolfan drwy un o'r ffyrdd canlynol:

Dros y ffôn:0845 300 9923 (8.30am – 5.00pm)
Drwy ffacs:0845 300 9924 (unrhyw bryd)
Dros y rhyngrwyd www.ridoor.gov.uk (unrhyw bryd)
Drwy e-bost: riddor@natbrit.com
Drwy'r post:Canolfan Gyswllt Digwyddiadau, Parc Busnes Caerffili, Caerffili CF83 3GG

Dylech gysylltu â'r Awdurdod Lleol:

a) Os caiff eich cyflogai neu berson hunangyflogedig ei ladd neu os bydd yn dioddef anaf mawr, mewn damwain sy'n gysylltiedig â'ch busnes.

b) Os caiff aelod o'r cyhoedd ei ladd neu ei anfon i'r ysbyty o ganlyniad i ddamwain sy'n gysylltiedig â'ch busnes.

c) Os oes digwyddiad peryglus.

Rhaid i unrhyw ddigwyddiad, sy'n gofnodadwy, h.y. sy'n syrthio i un o'r categorïau uchod, gael ei gofnodi mewn llyfr, sydd wedi ei neilltuo'n benodol ar gyfer y diben hwn.

Yn ogystal â'r wybodaeth y mae'n ofynnol yn statudol i chi ei chadw mewn perthynas â damweiniau cofnodadwy o dan RIDDOR (Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Afiechydon a Digwyddiadau Peryglus 1995), byddwn yn eich cynghori i gadw cofnodion yn y fformat canlynol, o bob digwyddiad ar y safle:

- Amser a Dyddiad y Digwyddiad
- Enw a chyfeiriad llawn y rhai a gafodd eu hanafu
- Statws (e.e. cyflogai, cwsmer ac ati)
- Natur yr anaf
- Lleoliad a disgrifiad byr o'r digwyddiad
- Enwau a chyfeiriadau unrhyw dystion
- Effeithiau anaf (e.e. mynd i'r ysbyty, nifer y diwrnodau i ffwrdd o'r gwaith ac ati)
- Unrhyw ymchwiliad a gynhelir i ganfod achos y digwyddiad (pryd a chan bwy)
- Manylion unrhyw gamau unioni a gymerir i atal rhywbeth rhag digwydd eto (pryd a chan bwy).

Argymhellir hefyd y dylai manylion am ddamweiniau y bu bron iddynt ddigwydd gael eu cofnodi yn y llyfr damweiniau fel y gellir monitro damweiniau posibl i weld a oes unrhyw batrymau o arferion gweithio anniogel wedi datblygu ac fel y gellir cymryd camau cywirol cyn i ddamweiniau tebyg ddigwydd yn y dyfodol. Dylid adolygu'r llyfr damweiniau o bryd i'w gilydd. Mae hon yn ffordd dda o archwilio'r gweithle, yn ogystal â phenderfynu ble y gall damweiniau ddigwydd dro ar ôl tro.